BCR 10

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government Committee

Ymchwiliad i'r Adolygiad o Siarter y BBC

Inquiry into the BBC Charter Review

Ymateb gan: Cyngor Celfyddydan Cymru

Response from: Arts Council of Wales






# Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Ymchwiliad i'r Adolygiad o Siarter y BBC

## Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldebau a Llywodraeth Leol

Nick Capaldi, Prif Weithredwr
Hydref 2015

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

*Clawr blaen:*
Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yn Neuadd Hoddinott y BBC
Dim Sŵn, Kizzy Crawford, Gorwelion

## Dychmygwch...

1. Dychmygwch Gymru. Ac wedi gwneud hynny   ei gweld hi, ei chlywed, ei mwynhau, darllen amdani, morio ynddi   rhowch gynnig ar feddwl am ein gwlad heb gân, heb y gair llafar ar y llwyfan na'r sgrin, heb na barddoniaeth na nofelau, na dawns na cherfluniau na cherameg na lluniau na delweddau, na'r holl draddodiadau byw sy'n gwneud ein diwylliant cyfoes mor egnïol. Mae'n fater o ffaith foel, yn y byd go iawn ac yn ein dychymyg, nad oes Cymru ddynol heb y Celfyddydau, yn yr un ffordd nad oes treftadaeth i'w throsglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth heb greadigrwydd.

2. Os dyletswydd darlledu cyhoeddus yw adlewyrchu bywyd pobl, disgwyliwn iddo adlewyrchu diwylliant Cymru a chreadigrwydd ei phobl. Yn ôl Arolwg Omnibws 2014 Cyngor Celfyddydau Cymru o gyhoedd Cymru, mae 4 o bob 5 oedolyn a 3 o bob 4 plentyn yn mynychu digwyddiadau celfyddydol.. Ac mae dros draean o oedolion ac 8 allan o 10 person ifanc yn ymgyfranogi o'r celfyddydau. Mae'r celfyddydau a diwylliant o bwys i Gymru.

## Cyngor Celfyddydau Cymru

3. Cyngor Celfyddydau Cymru yw'r asiantaeth sy'n datblygu ac ariannu celfyddydau Cymru. Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ydym a sefydliad wedi'i ymgorffori'n elusennol. Mae gennym hefyd berthynas gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn Llywodraeth Prydain oherwydd y dosbarthwn arian o'r Loteri Genedlaethol.

4. Yn ein strategaeth Ysbrydoli, amlinellwn dri maes i ganolbwyntio arnynt. *Creu* cefnogi creu celfyddyd wych, *Cyrraedd*   cyrraedd cynulleidfaoedd newydd mewn ffyrdd newydd a Chynnal   sicrhau gwytnwch y celfyddydau a sicrhau gwytnwch drwy'r celfyddydau. Credwn fod gan ddarlledu yng Nghymru swyddogaeth bwysig ymhob un o'r tri maes hyn. Gall darlledwyr gydweithio â sector y celfyddydau i gefnogi'r creawdwyr a'u gwaith creu, defnyddio eu llwyfannau i ymgysylltu â phobl Cymru a buddsoddi gyda phartneriaid i wneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus i gael effaith fwy.

## Y Celfyddydau a Siarter y BBC

5. Megis y BBC, mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn sefydliad Siarter Frenhinol. Adlewyrcha hyn ein cylch gwaith i ddarparu budd cyhoeddus. Credwn yn angerddol y dylai'r BBC adlewyrchu a chefnogi'r celfyddydau a'r bobl sy'n eu creu ac eiriol drostynt.

6. Mae gan y BBC enw da ers amser hir am safon ac ystod ei darlledu celfyddydol. O ddrama i raglenni dogfen, mae llawer o raglennu celfyddydol y BBC wedi mynd yn gyfystyr â mynegiant diwylliannol cyfredol a gwelir enw da'r BBC yn noddwr goleuedig o'r celfyddydau yn ei chefnogaeth i Gyngherddau Prom y BBC ac ensembles perfformio'r BBC.

7. Os cenhadaeth graidd y BBC o hyd yw "rhoi gwybodaeth, addysgu a difyrru" wedyn bydd yn rhaid iddi adlewyrchu bywyd diwylliannol yn ei holl agweddau. Cynnal diwylliant a'r celfyddydau fywyd cyhoeddus. Mae'r agweddau hyn yn cynnwys y celfyddydau ac iechyd, twristiaeth ddiwylliannol, celfyddyd gyhoeddus ac adfywio canol ein trefi. Yn hyn oll mae'r celfyddydau yn gwneud ein bywydau beunyddiol yn ystyrlon, dilys a dedwydd. Mae'r celfyddydau'n cynnal a chreu swyddi, yn cyfoethogi gwasanaethau addysg, yn dod â phobl at ei gilydd ac yn gwella ansawdd ein bywyd ar y cyd. Hollgyffredinolrwydd y celfyddydau a diwylliant sy'n eu gwneud mor arbennig a swyddogaeth y BBC yw parchu'r hollgyffredinolrwydd hwnnw.

8. Am y rheswm hwnnw hoffem anghytuno â'r honiad ym Mhapur Gwyrdd y Llywodraeth fod y BBC yn rhy fawr a rhy "wasgaredig". Er y dywed ei fod yn "ymrwymedig i ddyfodol y BBC a'i chenhadaeth waelodol o eiddo'r Arglwydd Reith", awgryma'n dawel y dylid lleihau ar ystod cynnyrch y BBC. Yn ein barn ni, nid yw hyn er budd cynulleidfaoedd sy'n parhau i gael eu gwasanaethu orau gan BBC sy'n hollgyffredinol a chynhwysol. Rydym o'r farn y dylai'r celfyddydau fod ar gael ar draws cynnyrch y BBC, heb eu neilltuo megis rhywbeth arbenigol. Dylent fod yn bresennol yn eu holl agweddau ar draws holl lwyfannau'r BBC i gyrraedd pob un o'i chynulleidfaoedd o Cbeebies i Radio 3.

9. Hefyd yng Nghymru mae ffi'r drwydded yn cefnogi S4C. Cylch gwaith S4C yw gwasanaethu'r Gymru Gymraeg yn ei holl ddemograffeg a'i hoedrannau her ddigon tebyg i'r un a wyneba'r BBC. Mae'n hanfodol yn ddiwylliannol ac â ffocws unigryw.

10. Rydym hefyd yn poeni am faterion diwylliannol ehangach – creadigrwydd, hunaniaeth ac amrywiaeth – tir ffrwythlon y mae'r BBC ac S4C yn ei throi. Drwy ymgysylltu'n gydweithiol â'r sector diwylliannol, credwn y gall darlledwyr ddechrau gwneud cynnydd mawr o ran y meysydd hyn am y cydnabyddir yn eang y dimensiwn diwylliannol sy'n perthyn i faterion cymdeithasol mwy cyffredinol. Mewn democratiaeth yn y 21ain ganrif, rhan o gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus (yn hytrach nag un a yrrir gan y farchnad) yw darparu llwyfan i amrywiaeth a llais diwylliannol.

## Cyngor Celfyddydau Cymru mewn partneriaeth gyda darlledwyr

11. Mae gan ein perthynas gyda BBC Cymru ac S4C lawer o agweddau:
    - a ninnau'n ddosbarthwr arian cyhoeddus yng Nghymru, craffa'r cyfryngau ar ein gweithgareddau yn aml
    - a ninnau'n elusen sy'n ymgyrchu, ceisiwn berswadio'r cyfryngau i wneud rhagor i hyrwyddo proffil celfyddydau Cymru
    - a ninnau'n fuddsoddwr arian yn y sector diwylliannol a chreadigol, cyfrannwn at ddatblygiad yr economi greadigol ehangach yng Nghymru (y mae'r cyfryngau yn rhan allweddol ohoni)
    - a ninnau'n bartner, cydweithiwn i hyrwyddo celfyddydau a diwylliant Cymru a buddsoddi ynddynt a hynny yn y ddwy iaith

12. Cydnebydd Cyngor Celfyddydau Cymru, BBC Cymru ac S4C mai hwy yw'r buddsoddwyr mwyaf mewn creadigrwydd a ariennir gan y cyhoedd yng Nghymru. Rhannwn ymrwymiad cryf i ehangu a dyfnhau cynulleidfaoedd i'r celfyddydau a'r sector creadigol. Rydym hefyd yn llawn angerdd am ddatblygu a chefnogi'r talentau creadigol gorau. Drwy ein hymdrechion ar y cyd, gweithiwn i wneud Cymru'n fwy bywiog, cynhwysol a deinamig yn economaidd.

13. Ym Mai 2013 llofnododd Cyngor Celfyddydau Cymru a BBC Cymru gytundeb partneriaeth gwerth cyhoeddus i ymrwymo i archwilio cydweithio'n agos dros dair blynedd. Dengys hyn ein cydbenderfyniad i geisio cyfleoedd cydweithio i wneud rhagor a gwell a mwyafu arian y cyhoedd.

14. Bu'r cytundeb partneriaeth gwerth cyhoeddus yn sail gref i gydweithio yng Nghymru. Mae llwyddiannau'n cynnwys ein *prosiect blaenllaw i ddatblygu talent gerddorol,* Gorwelion; yn peri bod cyfathrebu'n fwy agored i weld yn gynt a chymryd gwell mantais o gyfleoedd megis cyhoeddusrwydd WOMEX a Gwobrau Gwerin y BBC yng Nghaerdydd a gweithio ar y 'foment fawr; megis y prosiectau i nodi canmlwyddiant awdur mwyaf Cymru, Dylan Thomas yn Gant.

15. Ar wahân i'r cytundeb partneriaeth gwerth cyhoeddus, arianna'r ddau gorff hefyd Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC a Chorws Cymru. Drwy'r trefniant unigryw hwn gall Cymru feddu ar gerddorfa wirioneddol genedlaethol o safon wych a galluogi'r gerddorfa i ymgyfranogi o fentrau cyffrous a phwysig megis *Ten Pieces*. Mae'n rhaid inni sicrhau y cadwn gydbwysedd yma – o ran arian partneriaeth a swyddogaeth y Gerddorfa i gyrraedd pobl Cymru a'i

dyletswyddau recordio a darlledu.

16. Gwerthfawrogir yn fawr iawn ein partneriaeth gyda BBC Cymru. Hoffwn ei chryfhau ac adeiladu arni i ddarparu budd i gelfyddydau a chynulleidfaoedd Cymru. Dyma sut yr hoffwn wneud hyn:

- i BBC Cymru   a'r BBC yn fwy cyffredinol   gael agwedd fwy cydweithiol i weithio gyda sefydliadau celfyddydol. Golyga hyn nad helpu'r celfyddydau'n unig eithr gweithio gyda hwy'n bartneriaid cyfartal. Gwelsom ychydig o ddatblygiad yn y maes hwn – megis gweithio gyda National Theatre Wales ar *Under Milk Wood* – ond yn rhy aml y teimlad yw mai'r partner llai pwysig yw'r un celfyddydol. Rydym o'r farn y gallai partneriaethau creadigol rhwng artistiaid/sefydliadau celfyddydol a'r BBC esgor ar ganlyniadau gwych pe rhoddir amser ac adnoddau iddynt fwrw gwreiddiau a blodeuo. Mae ar y BBC angen annog prosesau sy'n hwyluso cyflawni'r fath ganlyniadau

- Drwy adnewyddu ein partneriaeth ffurfiol gyda BBC Cymru ar ddiwedd y cyfnod cyfredol. Adlewyrcha'r ail gytundeb hwn yr hyn a ddysgasom wrth gydweithio.  Amlinella'r meysydd gwaith sy'n flaenoriaeth gennym.

- I ailystyried sut y gallwn wella cyfathrebu. Yn enwedig, sut y gallai meysydd gwaith Prydeinig megis BBC Music a BBC Arts ymgysylltu a chyfathrebu â'r cenhedloedd. Yn rhy aml cawn wybod am fentrau ar ôl eu lansio a dylem ni a'n cydweithwyr yn y BBC fod wedi cydweithio o'r cychwyn yn deg. Mae Cymru ar ei cholled oherwydd y diffyg hwn. Sut y gallwn ei ddatrys?

- Parhau i ganolbwyntio ar feysydd sy'n flaenoriaeth i'r ddwy ochr a gweithredu arnynt. Sgiliau digidol (drwy The Space wedi'i ailwerthuso a'i ailffocysu a gweithio ar gyfleoedd hyfforddi a chydweithio megis defnyddio model y Stiwdio Gysylltiedig), annog ymgyfranogi o'r celfyddydau (drwyGet Creative a phroffilio gweithgarwch celfyddydol) a chreu'r foment fawr i afael yn nychymyg pobl drwy amrywiaeth o brofiadau, cynnwys a digwyddiadau (megis Dylan Thomas yn Gant a blwyddyn Roald Dahl a ddaw)

- Gwell rhwydwaith i'r sector celfyddydol yng Nghymru a BBC Cymru a meysydd megis BBC Arts a BBC Music. I hwyluso dealltwriaeth ar y ddwy ochr a'i gwneud yn debycach i weld cyfle i gydweithio'n gynt.

17. Mewn modd digon tebyg, yn 2013 sefydlodd Cyngor Celfyddydau Cymru Femorandwm Cyd ddealltwriaeth gydag S4C. Darparodd hyn lwyfan i'r ddau

sefydliad nodi talent greadigol sy'n gweithio drwy'r Gymraeg a chydfuddsoddi ynddi a chael ffyrdd newydd i ddigwyddiadau a phrosiectau artistig ddod o hyd i gynulleidfaoedd newydd.

18. Cydweithia sector celfyddydol Cymru ag S4C mewn sawl ffordd a gwerthfawrogwn sut y gall ein memorandwm cyd ddealltwriaeth hwyluso hyn drwy rwyddhau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth. Mentrau megis Labordy mae'r rhaglen ddatblygu ddwys i awduron Cymraeg sy'n ysgrifennu ar gyfer y llwyfan a'r sgrin yn enghraifft dda o'n cydfuddsoddiad yn yr ecosystem greadigol hon. Yn aml darlledodd S4C addasiadau neu ddigwyddiadau celfyddydol i'w chynulleidfa gydag enghreifftiau nodedig yn cynnwys Tir (a dyfodd o Dir Sir Gâr gan Theatr Genedlaethol Cymru yn wreiddiol) a chyngerdd agoriadol WOMEX. Croesawn hefyd fuddsoddiad S4C lawer yn gynt yn y broses greadigol – megis gyda'r prosiect Patagonia, *150,* a'i chydweithio â Ffilm Cymru (y dirprwywn iddi gyfrifoldeb am ffilm) a gynhyrchodd y ffilm *Dan y Wenallt a gyrhaeddodd y rhestr hir o enwebiadau i'r Osgars*. Mae sawl enghraifft o S4C yn gweithio gyda'r celfyddydau er budd y creawdwyr a'r gynulleidfa.

19. Yn edrych i'r dyfodol, hoffwn adeiladu ar ein gwaith hyd yn hyn, yn enwedig canolbwyntio ar ein cydflaenoriaethau o ran y canlynol:

- Iaith. Cydweithio i greu cyfleoedd i ymgyfranogi o'r celfyddydau drwy'r Gymraeg ac adeiladu cynulleidfaoedd. Er enghraifft, yn y Gogledd ddwyrain a'r De ddwyrain lle mae llai o ddarpariaeth i siaradwyr Cymraeg.

- Cymunedau. Defnyddio'r celfyddydau a chreadigrwydd i wneud ein cymunedau Cymraeg yn fywiog a chynaliadwy. Defnyddio ein rhwydwaith o leoliadau celfyddydol i wneud hyn.

- Gwyliau a digwyddiadau. Buddsodda'r ddau ohonom mewn creu digwyddiadau diwylliannol unigryw yng Nghymru. Sut y gallwn wneud hyn yn well a rhannu cynnwys yn ehangach?

- Talent. Datblygu talent er budd y ddau ohonom. Mae hyn wedi digwydd ers amser maith o ran sgiliau technegol ac yn fwyfwy drwy dalent greadigol, ond a oes o bosibl feysydd eraill megis gwaith addysgiadol?

## Cyngor Celfyddydau Cymru ac adnewyddu Siarter y BBC yng Nghymru

20. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cyflwyno ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Prydain ynghylch adnewyddu'r Siarter. Yn y ddogfen honno disgrifir ein meddyliau am ddiben cyffredinol y BBC. Yn y ddogfen hon codwn lawer o'r un pwyntiau ond ymatebwn i'r cylch gorchwyl a ddarperir isod. Ysgrifennwyd y ddogfen o safbwynt y celfyddydau yn y Gymru ddatganoledig sydd ohoni yn 2015. Tynasom ar ein profiad o weithio gyda BBC Cymru, S4C, y BBC dros Brydain a'n llwyddiannau, ein rhwystredigaethau a'n dyheadau o ran celfyddydau Cymru. Lle na theimlwn ei bod yn briodol inni wneud sylw, ni wnaethom.

## Trefniadau cyfredol o ran ariannu, llywodraethu ac atebolrwydd y BBC fel y maent yn berthnasol i Gymru

Golyga datganoli ym Mhrydain fod yn rhaid i'r BBC ymateb i wahanol anghenion a dyheadau'r cenhedloedd. Hyd yn hyn ymddengys bod y BBC yn araf i ddirprwyo cyfrifoldeb a grym o Lundain i'w chenhedloedd ei hun. Deallwn nad yw darlledu'n faes datganoledig ac nid ein lle ni yw gwneud sylw am hynny. Serch hynny, mae llawer o'r agweddau eraill ar fywyd Cymru yn feysydd datganoledig ac mae ar y BBC angen bod yn hyblyg o ran ei strwythur, ei harian a'i phrosesau penderfynu er mwyn ymaddasu i'r newid hwn.

Bydd angen i'r adnoddau gwneud a dyfeisio rhaglenni gael eu dosbarthu'n briodol ledled Prydain. Cadarnhai hyn amrywiaeth y lleisiau, dosbarthiad eang o fudd economaidd ac adlewyrchiad tecach o'r cenhedloedd a'r rhanbarthau yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau hynny a'r tu hwnt iddynt.

Rhaid inni ystyried realaeth ddatganoli yng nghylch gwaith *cynrychioli Prydain, ei chenhedloedd, ei rhanbarthau a'i chymunedau.* Ac nid yw'n fater o wneud gwaith sy'n cynrychioli Cymru neu gael Cymru i weithredu megis warws i gynyrchiadau rhwydwaith a hynny'n unig. Dylai'r BBC fod yn ymrwymedig i wneud gwaith *gan* Gymru, yng Nghymru, i Gymru a'r tu hwnt.

Noda dogfen ymgynghorol y BBC yr hoffai amddiffyn y lefel ariannu ar gyfer y cenhedloedd. Cefnogwn hyn i'r carn. Galluoga'r BBC i greu gwaith yng Nghymru,

gyda Chymru ac sy'n adlewyrchu Cymru. Wrth gwrs, cynnwys hyn waith yn y Gymraeg. Mae Cymru yn wlad ddwyieithog ac mae angen adlewyrchu hyn a dylid cymryd hyn i ystyriaeth wrth bennu lefel yr ariannu.

Mae'r egwyddor gyffredinol gennym y dylid amddiffyn cyllideb y cynnwys celfyddydol ar draws sianeli a llwyfannau'r BBC. Fel y dywedasom, darparydd unigryw o'r fath gynnwys a'r llwyfannau yw'r BBC.

Poenwn hefyd am yr elfen gystadleuol o ran cynhyrchu yn y BBC. Os na reolir a rheoleiddir hon, gallai arwain at ganoli cynhyrchu unwaith eto yn Llundain a'i chyffiniau.

Nid ein lle ni yw argymell sut y dylid talu am ffi'r drwydded, ond mae'n glir bod angen moderneiddio. Sut bynnag y gwneir hyn rhaid i'r drwydded aros yn hollgyffredinol a heb gost ychwanegol wrth y pwynt darparu fel y mynna'r egwyddor hon.

## Darpariaeth y dyfodol o wasanaethau'r BBC yng Nghymru yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'n hanfodol y rhoddir amlygrwydd priodol i Gymru ledled Prydain a bod ei phortread yn un y gallwn ei adnabod. Yn ogystal â'n hanghenion unigryw a ninnau'n wlad ddwyieithog, mae angen penodol i gynyrchiadau diwylliannol, Saesneg nad yw'n newyddion a hynny yng Nghymru ac ar ei chyfer. Mae'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd i'r BBC yng Nghymru yn rhwystro ei gallu i dynnu ar dalent a darparu i bobl Cymru gynnyrch diwylliannol a gynhyrchwyd yng Nghymru.

Yn y blynyddoedd diweddar, gwelsom leihad yng ngallu BBC Cymru i ddarparu cynnig diwylliannol i Gymru. Er yr amddiffynnwyd i ryw raddau ariannu newyddion a chwaraeon, mae celfyddydau, diwylliant a drama Cymru yn enwedig ar y teledu prin yn bodoli. Y llynedd creodd BBC Cymru 90 munud o ddrama deledu yn Saesneg (roedd Hinterland yn gydgynhyrchiad ag S4C). Yn ei adroddiad blynyddol 2014/15, lleisiodd Cyngor Cynulleidfaoedd Cymru bryderon am bortread cyfyngedig ein gwlad drwy gyfrwng drama a chomedi.

Meddai Tony Hall, Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, yn ei anerchiad o Adeilad y Pierhead yng Nghaerdydd y llynedd: *"Mae rhaglennu Saesneg o Gymru ac i Gymru yn*

*dirywio ers bron degawd."* Meddai ymhellach: "*Golyga heb os nac oni bai na ddelir yn ddigonol rai agweddau ar fywyd y genedl gan wasanaethau teledu'r BBC ei hun yng Nghymru, a chynhwyswn gomedi, adloniant a diwylliant yn y categorïau hynny."*

Mewn modd digon tebyg ni chynhwyswyd celfyddydau Cymru yn ddigonol ychwaith. Ni wneir bellach raglenni cylchgrawn o safon megis *The Slate*. Nid oes rhaglen gelfyddydol ymysg rhaglenni BBC Cymru a dim ond hanner awr bob wythnos ar Radio Wales.

Nid oes yr un darlledwr arall mewn lle gwell i greu cynnwys creadigol o safon o Gymru ac i Gymru, ond nid yw BBC Cymru yn gwneud hyn. Nid adlewyrcha allbwn BBC Cymru y Gymru greadigol y dylai ei hadlewyrchu.

Dibynna bywiogrwydd a gwreiddioldeb celfyddydau Cymru ar syniadau newydd a enir ac a ddatblygir ac a rennir drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n hanfodol felly cael darlledwyr Cymraeg cryf a hyderus (ar y teledu a'r radio), cyhoeddwyr a gwneuthurwyr ffilm a all adlewyrchu amrywiaeth llawn cymdeithas gyfoes Cymru. At y diben hwn, mae'n bwysig bod S4C (a ariennir ar hyn o bryd gan ffi'r drwydded a'r BBC) a gwasanaethau BBC megis Radio Cymru yn cael eu hariannu'n briodol.

O ran ei chyfraith, ei chymdeithas, ei diwylliant, ei hunigolion a'i chymunedau, mae Cymru'n wlad ddwyieithog. Y Gymraeg yn anad dim sy'n gwneud Cymru'n unigryw. Mae'r iaith yn caniatáu inni ddeall a mwynhau llenyddiaeth a diwylliant sy'n eithriadol o gyfoethog. Ffynnu y mae'r celfyddydau ar hyn. Mae'r celfyddydau'n elfen allweddol wrth gynnal swyddogaeth hollbwysig y Gymraeg ym mywyd Cymru.

Rhaid i BBC Cymru ac S4C amddiffyn a hyrwyddo'n egnïol hawl pobl i archwilio eu diwylliant a'u creadigrwydd eu hunain drwy eu dewis iaith. Mewn byd sy'n gynyddol ryngwladol, rydym yn ystyried y Gymraeg, a'r Saesneg hithau, yn nodwedd ddinesig sylfaenol yn ogystal â diwylliant a etifeddir. Os yw am ffynnu a thyfu, rhaid i'r Gymraeg a'i diwylliant gynnig yr un arbrofion ac ymateb ar yr un raddfa i dueddiadau'r byd yn yr un ffordd ag y gwneir drwy'r cyfryngau Saesneg. Chwaraeodd y BBC ac S4C swyddogaeth bwysig yn niwylliant y Gymraeg hyd yn hyn a rhaid iddynt barhau i'w wneud.

Eto, dylai'r BBC ei osod ei hun ochr yn ochr â sefydliadau eraill sydd â budd mewn datblygu'r Gymraeg a chyflawni swyddogaeth allweddol yn gydweithiwr pwysig, yn enwedig yn awr am y cafodd gyfrifoldebau cyllidebol am S4C. Er gwaethaf ei

threfniadau, mae'n amlwg bod S4C mewn sefyllfa unigryw, a hithau'n ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus, i hyrwyddo diwylliant Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg yn y cyfryngau newydd. Gallai toriadau cyllidebol i S4C lesteirio cynhwysedd cyfryngau Cymru i adlewyrchu'n llawn ei diwylliant a'i hunaniaeth mewn ffordd gyfartal a hygyrch (ni waeth am y ddewis iaith).

Ni ddylid colli golwg ar y mandad i ymgorffori'r ymrwymiad i iaith a diwylliannau Cymru wrth adnewyddu'r Siarter.

Nid yw'n fater i ni wneud sylwadau ar fanylion model llywodraethu a rheoleiddio'r BBC ond credwn i'r carn y dylai'r BBC gadw ei hannibyniaeth. Credwn, serch hynny, y byddai rhinwedd mewn sicrhau i Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru gael eu cynrychioli'n iawn yn Ofcom.

Yn ein hymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Prydain, tynasom sylw at ba mor bwysig oedd gallu'n BBC i arloesi ac aros yn berthnasol i gynulleidfaoedd newydd. Nodasom gyfrifoldeb y BBC i weithio gyda sectorau megis y celfyddydau a chynorthwyo â'u datblygu. Mae'n faes y teimlwn yn gryf yn ei gylch o ran ei weithredu yng Nghymru.

## Dyfodol S4C, gan gynnwys ei hariannu, ei threfniadau gweithredu a llywodraethu a'r gwasanaethau a ddarpara

Cydnabyddwn hefyd y tâl ffi'r drwydded gyfraniad at S4C yn ogystal ag am y BBC. Yn y Gymru ddwyieithog sydd ohoni, mae'n hanfodol cael llais golygyddol, nodweddiadol S4C. Mae S4C mewn sefyllfa unigryw, a hithau'n ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus, i hyrwyddo diwylliant Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg yn y cyfryngau newydd.

Ochr yn ochr â'r BBC, mae S4C yn fuddsoddwr sylweddol yng nghreadigrwydd Cymru. Yn ogystal â hyn, drwy'r model comisiynu a fabwysiadodd S4C, bu modd datblygu sawl clwstwr o ddiwydiannau creadigol yng Nghymru megis Caernarfon a fu o gymorth i gynnal economi cymunedau gwledig Cymru. Caiff y lleihad ariannol oblygiadau difrifol a chanlyniadau nas bwriedid.

Nodasom fod y BBC ac S4C wedi dod o hyd i ffyrdd o gydweithio a chydfuddsoddi mewn prosiectau heb gyfaddawdu eu hannibyniaeth olygyddol. Croesawn y ffordd hon o weithio.

Credwn hefyd y dylid amddiffyn cyllidebau S4C ar gyfer y cynnwys celfyddydol. Darparydd unigryw yw S4C o'r fath gynnwys a llwyfannau i gynulleidfaoedd Cymraeg. Cadwodd S4C ei hymrwymiad i gynnwys creadigol a diwylliannol a chroesawn hwn. Cyd weithio yw'r allwedd yn y cyswllt hwn. Anogem barhad partneriaeth gyda'r sector celfyddydol – nodasom enghreifftiau o hynny'n barod yma wrth greu a darlledu gwaith.

Megis gyda'r BBC, er mwyn cyflawni gwasanaeth gwirioneddol gyhoeddus bydd yn rhaid i S4C ddarparu cynnwys ar draws llwyfannau digidol. Yn aml ystyriaeth ychwanegol yw sicrhau bod llwyfannau ar gael yn Gymraeg.

## Sut y cynrychiolir buddiannau Cymru yn ystod y broses adnewyddu

Croesawn ymchwiliad y Cynulliad Cenedlaethol i ba effaith a gaiff adnewyddu Siarter y BBC ar Gymru ac am y cyfle i ymateb. Nodasom nad adlewyrchai cylch gorchwyl ymgynghoriad Llywodraeth Prydain ryw lawer ar anghenion penodol y Cenhedloedd – megis darpariaeth y Gymraeg.

Felyr amlygwn drwy'r ddogfen, er na ddatganolir darlledu, mae'n bwysig adlewyrchu'n ddigonol anghenion unigryw Cymru yn y broses. Hefyd, mae'n bwysig y cynrychiolir yn iawn Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn Ofcom yn ogystal â rhoi cyfle digonol am fewnbwn y cyhoedd sy'n talu'r drwydded.

O'r diwedd, mae'n rhaid i'r BBC ac S4C werthuso sut y parhânt i ddatblygu ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys y sector celfyddydol yng Nghymru, yn ystod y broses hon a'r tu hwnt iddi.

## Sylwadau i gloi

Dyma'r prif bwyntiau yr hoffem eu gwneud am adnewyddu Siarter y BBC yng Nghymru sef y dylai'r BBC ac S4C wneud y canlynol:

- **cefnogi'r celfyddydau** – gallant ein cynorthwyo i ddeall a gwerthfawrogi dimensiynau newydd o fynegiant neu brofiad, gan gyfoethogi ansawdd ein bywyd. Dylai'r BBC ac S4C fuddsoddi yng nghelfyddydau Cymru.

- **ehangu hygyrchedd a datblygu cynulleidfaoedd newydd** hygyrchedd i bawb. Y BBC ac S4C fel ei gilydd i ymaddasu ar gyfer llwyfannau newydd a dylai'r celfyddydau a chreadigrwydd fod yn bresennol ar draws pob un o'r llwyfannau hyn. Rhydd arian y cyhoedd y sicrwydd i arloesi a mentro her newydd, cyfle newydd. Mae'n hanfodol y caniateir i'r BBC ac S4C barhau i wneud hyn er mwyn bod addas i'w pwrpas. Mae hefyd ganddynt gyfrifoldeb i gefnogi eraill gan gynnwys y celfyddydau i arloesi gyda hwy.

- **adlewyrchu'r Gymru sydd ohoni a'i huchelgais at y dyfodol – gwlad ddwyieithog, greadigol, ryngwladol ei hagwedd, amrywiol ei phobl ac ôl ddatganoledig yw Cymru**. Dylid adlewyrchu hyn yn yr agweddau canlynol: cynnwys y darllediadau, sut y creir y darllediadau, pwy sy'n eu creu a sut y maent yn hygyrch.

- **bod yn wirioneddol gydweithredol** – nid oes arnom eisiau neu angen BBC neu S4C dadol, eithr partner cyfartal sy'n fodlon cydweithio â chynhyrchwyr creadigol yn yr ystyr ehangaf.

Dylai gwasanaeth darlledu cyhoeddus:

- **cael ei strwythuro i adlewyrchu anghenion y cenhedloedd datganoledig** – anghenion unigryw sydd gan Gymru. Dylid adlewyrchu hyn yn y llywodraethu a'r ariannu.

A'n bod ni, Gyngor Celfyddydau Cymru, yn:

- **gwerthfawrogi ein partneriaethau** gyda BBC Cymru ac S4C Rydym am barhau i weithio'n agos gyda'n gilydd drwy gytundeb partneriaeth a chydnabod eu swyddogaeth hanfodol yn yr economi greadigol ledled Cymru. Mae celfyddydau Cymru ganwaith yn gyfoethocach o'u herwydd.